**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 2 GORFFENNAF 2026 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Jenny Jones (Cadeirydd), Philip Davies, Janet Knott, Meinir James, Elfyn Williams, Rheinallt Jones, Viv Davies, Shan Rees, Eifion Jones ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Cyng Shan Rees, Nicola Jones a Cynghorydd Sir Tyssul Evans

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Fynychiad gan yr Swyddog Heddlu Lleol**

Croesawodd y Cadeirydd y SCCH Martin Dickenson i'r cyfarfod. Rhoddodd y SCCH Dickenson wybodaeth ddiweddaraf am faterion a gweithgaredd yr Heddlu. Rhoddwyd cyfle i aelodau ofyn cwestiynau a chodi materion o bryder. Diolchwyd i'r SCCH Dickenson am ei bresenoldeb.

**5. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 4ydd Mehefin 2026.**

**6. Materion yn Codi**

1. **Fforwm Cyswllt Sir Caerfyrddin** – Cynhaliwyd Cyfarfod y Fforwm Cyswllt ar 2il Gorffennaf 2026, rhoddodd y Cadeirydd adroddiad ar y cyfarfod.
2. **Green Gen** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
3. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
4. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
5. **Pont Rhydyronnen –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
6. **PL/09369** - **1-3 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** – Ystyriwyd yr ymateb a dderbyniwyd gan PEDW. Roedd yr ymateb yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn cydnabod yr oedi a brofwyd wrth benderfynu y mater. Nododd y llythyr hefyd y pryder a godwyd gan y Cyngor Cymuned a trigolion lleol. Nodwyd.
7. **Maesglasnant, Cwmffrwd –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
8. **Diogelwch Ffyrdd yng Nghyffordd Llandyfaelog -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.

9. **Materion Gorfodi Cynllunio mewn caeau yn Idole** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
10. **Materion Gorfodi Cynllunio sy'n ymwneud â Chanolfan Adar Ysglyfaethus ym Mhantgwyn -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
11. **PL/10552** - **Caniatâd cynllunio llawn ar gyfer codi is-orsaf AIS 400kV (gan gynnwys platfform, ffordd fynediad a seilwaith cysylltiedig) - Tir yn Llandyfaelog, Caerfyrddin -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
12. **Prosiect Is-orsaf NGED –** Derbyniwyd gwahoddiad i hyd at 8 aelod ymweld ag is-orsaf Treforis yn ystod mis Gorffennaf. Byddai dyddiad yn cael ei cynnig i NGED.
13. **Gwynt Glas –** Dosbarthwyd y sleidiau o'r seminar i'r aelodau. Nodwyd.
14. **Disgrifiad Swydd ac Adolygiad Contract Clerc y Cyngor –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
15. **Rhodd i Gymdeithas Pensiynwyr Llandyfaelog a'r Cylch –** Derbyniodd y Cyngor ymateb yn gofyn am ailystyried y rhodd o £100 gyda chais am arian ychwanegol. Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Gymdeithas fod y Cyngor wedi cytuno ar y swm hwn, a oedd ar gael i'w ddarparu i'r Gymdeithas.
16. **Gwasanaeth Dinesig y Maer – Cyngor Tref Cydweli -** Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad ar y Gwasanaeth. Nodwyd.
17. **Ciosg Ffôn BT – Croesyceiliog -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.

**7. Gohebiaeth**

1. **Cyngor Sir Caerfyrddin** - Ymarfer Cofrestr Risg Gymunedol ar gyfer Fforwm Cydnerthedd Lleol Dyfed Powys. Nodwyd.
2. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Ymgynghoriad - Gorchymyn Addasu Map Diffiniol - BOATs 29/5, 28/15, 29/6 a 28/9, Cwmffrwd. Nodwyd.
3. **Un Llais Cymru** – E-fwletin. Nodwyd.
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin** - Ymgynghoriad ar Ganllawiau Cynllunio Atodol Drafft. Nodwyd.
5. **Sefydliad John Burns** - Prosiect Diogelwch a Llesiant Cŵn Cymunedol – Cais am Adborth Lleol gan Gynghorau Tref a Chymuned yn ystod mis Gorffennaf. Bydd y Cyngor yn darparu manylion am rai o'r problemau a brofwyd yn y Gymuned.
6. **Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru** – Holiadur ymchwil i agweddau a chanfyddiadau Cynghorwyr Tref a Chymuned. Nodwyd.
7. **Cyngor Sir Caerfyrddin** - Cais am ddata Cod Ymddygiad. Cadarnhaodd y Clerc fod y data wedi'i ddarparu ar gyfer y Cyngor.
8. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Gwybodaeth am Brosiect Gwirfoddoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Nodwyd.
9. **Un Llais Cymru** – Cylchgrawn Y Llais. Nodwyd.
10. **Un Llais Cymru** – Cyfarfod Pwyllgor Ardal Caerfyrddin – 14/7/26 – Papurau ar gyfer y cyfarfod. Nodwyd.
11. **Un Llais Cymru** – Nodiadau Datblygu Ymarfer. Nodwyd.

12. **Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.
13. **Un Llais Cymru** - Yr Hyn y mae Cynghorau Cymuned a Thref yn ei Gyflawni Ar Draws Cymru. Nodwyd.
14. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Diweddariad y Cynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd.
15. **Banc Barclays** – Datganiadau. Nodwyd.

**8. Cyfethol Aelod i'r Cyngor Cymuned**

Cadarnhaodd y Clerc nad oedd cais am etholiad wedi'i gyflwyno i'r Cyngor Sir ac felly roedd wedi hysbysebu'r cyfle i gyfethol i'r Cyngor. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ac felly bydd Cynghorwyr yn ystyried gwahoddiad i gyfethol yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

**9. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor**

Dim materion yn codi.

**10. Atgyweiriwr Cymunedol**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Mehefin gyda chyfanswm cost o £672.00 yn cael ei gytuno. Cytunwyd hefyd dorri gwair ar gyfer Mehefin gyda chost o £336.00.

**11. Adroddiad Cyllideb 2026-27**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cyllideb chwarter 1**af** ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2026-27. Cynhaliodd y Cyngor y gwaith monitro cyllideb chwarterol a derbyniodd yr adroddiad. Cynhaliodd y Cadeirydd adolygiad o gofnodion ariannol y Cyngor.

**12. Digwyddiadau Gymunedol 2026**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2026 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Ardd (Llysiau – Beirniadwyd ar 24ain Mehefin, trafodwyd enwebiadau ar gyfer blodau ac bydd llythyrau yn cael eu danfon, gyda beirniadu ar 22ain Gorffennaf;
- Cystadleuaeth Ymdrech Gymunedol - Roedd y posteri a'r llythyr yn hysbysebu'r gystadleuaeth wedi'u harddangos / eu hanfon allan.

**13. Cynllunio**

**a) Ceisiadau a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin**

1. **PL/10951** - Gosod carport dur annibynnol o fewn cwrtil yr eiddo - Aelybryn, Bancycapel, Caerfyrddin, SA32 8EB. Dim gwrthwynebiadau.
2. **PL/11017** - Gwaith atgyweirio i du allan a thu mewn yr eiddo ochr yn ochr â newidiadau mewnol cydymdeimladol - Plas Uplands, Uplands, Caerfyrddin, SA32 8DZ. Dim gwrthwynebiadau.

b) **Ceisiadau a dderbyniwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio**

1. Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad Effaith Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau'r AEA) – Rheoliadau 10 ac 11 Cais arfaethedig gan Fferm Wynt Alltraeth Gwynt Glas Cyfyngedig (yr ymgeisydd) am Orchymyn sy'n rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Gwynt Glas (y datblygiad arfaethedig) Ymgynghoriad cwmpasu a hysbysu manylion cyswllt yr ymgeisydd a'i ddyletswydd i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r ymgeisydd os gofynnir amdani. Nodwyd.

**14. Cyfrifon**
**Cymeradwywyd y Taliadau canlynol:**

1. **Michael Leefe** **£672.00** Taliad Mehefin (gweler eitem 10)
2. **Michael Leefe** **£336.00** Torri gwair Mehefin (gweler eitem 10)

| 3. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfon Davies | Cyflog Mai | £775.53<br>£26.00 | £11.70<br>£7.28 | £820.51 | £310.00 | £53.78 | £510.51 |

4. **Wessex Awards** **£192.95** Bariau ar gyfer cadwyn y Cadeirydd
5. **CTEM** **£1,091.74** Ebrill - Mehefin.

**15. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nododd y Clerc y materion canlynol a adroddwyd i'r Cyngor Sir:
   a. Pryderon ynghylch cambr ffordd Heol y Lan, gyda ceir yn cael eu nodi yn taro gwaelod y cerbyd yng nghanol yr heol.

**16. Cynllunio**

**Nododd y Cynghorydd Philip Davies a'r Clerc eu diddordeb yn y mater hwn a gadawsant y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth y mater.**

c) **Ceisiadau a dderbyniwyd gan PEDW**

1. **CAS-03952-H9R8G4** - Adeiladu a gweithredu gorsaf gynhyrchu trydan ffotofoltäig solar ('fferm solar') gan gynnwys seilwaith a datblygiad ategol cysylltiedig, mynediad adeiladu dros dro a mannau gosod, a gwelliannau tirwedd ac amgylcheddol - Parc Solar Heolddu, Maesmawr a Fferm Treforris Fawr, Glanyfferi, Sir Gaerfyrddin, SA17 5YD.

   Cynhelir cyfarfod arall i drafod y mater.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 3ydd Medi 2026.**